



24 Gorffennaf 2008
www.wao.gov.uk

WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Gwasanaethau Therapi Ocsigen yn y Cartref



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Gillian Body a Phil Jones.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys cyrrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'r adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y gwaith llywodraeth leol hwn, ar wahan i phan y mae'n ofynnol i wneud hynny gan ddeddf.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 029 2026 0260, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu gwelwch ein gwefan <http://www.wao.gov.uk>

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2008

Gellir ail-ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (gan eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat. Mae'n rhaid ei ail-ddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a dylid nodi teitl y cyhoeddiad hwn.

Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, mae'n rhaid sicrhau caniatâd y rheini sydd a'r hawlfraint cyn ei ail-ddefnyddio.

**Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r
Cenedlaethol ar 24 Gorffennaf 2008**



	Crynodeb	6
	Argymhellion	8
1	Nid oedd y GIG wedi gwneud paratodau digonol ar gyfer cyflwyno'r contract newydd i ddarparu ocsigen yn y cartref	10
	Cafwyd cytundeb cyffredinol yn y GIG yng Nghymru ynghylch yr angen i foderneiddio'r modd y darperir cyflenwadau ocsigen yn y cartref	10
	Arweiniodd her gyfreithiol i'r contract newydd at ansicrwydd o fewn y GIG a effeithiodd ar gyflymder y paratodau	11
	Roedd yr amser a roddwyd i baratoi ar gyfer cyflwyno'r contract newydd yn dynn, a gwaethygydd y sefyllfa gan y wybodaeth wael am gleifion a arweiniodd at oedi wrth hysbysu cleifion am y newidiadau	12
	Cafwyd negeseuon cymysg o ran p'un a oedd yn fwriad cyflwyno'r contract newydd yn raddol neu ei gyflwyno'n syth	13
	Roedd y paratodau ar gyfer delio â chyfnod cychwynnol prysur o ran galw yn gwbl annigonol i ddelio â'r cynnydd a welwyd ar ddechrau'r contract newydd	13
	Roedd diffyg ymwybyddiaeth mewn meddygfeydd teulu ynghylch sut y byddai'r gwasanaeth newydd yn gweithio a phroblemau difrifol o ran defnyddio'r ffurflenni archebu newydd	14

2 **Nid yw buddiannau bwriadedig y trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau ocsigen yn y cartref a'r asesiad clinigol arbenigol cysylltiedig wedi'u gwireddu'n llawn hyd yn hyn** **15**

Ymatebodd yr Adran yn gyflym i'r argyfwng drwy ddefnyddio fferyllwyr cymunedol i barhau â'u gwasanaeth blaenorol, ond roedd costau'n gysylltiedig â hyn **15**

Roedd Air Products mewn sefyllfa i allu cyflenwi'r holl wasanaethau ocsigen yn y cartref erbyn diwedd y cyfnod trosglwyddo **16**

Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi gwneud cynnydd araf o ran comisiynu gwasanaethau clinigol arbenigol i asesu p'un a oes angen ocsigen ar gleifion **17**

Ar ôl datrys anghydfod ynghylch anfonebau, mae cost y contract newydd yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd ond mae arbedion yn bosibl yn y dyfodol drwy asesu anghenion clinigol cleifion ar gyfer ocsigen yn well **19**

Atodiadau **21**

Atodiad 1 - Cronoleg o'r digwyddiadau a oedd yn ymwneud â'r penderfyniad i foderneiddio gwasanaethau ocsigen yn y cartref **21**

Atodiad 2 - Tariff taliadau newydd gwell i fferyllwyr cymunedol **23**

Crynodeb

- 1 O 1 Chwefror 2006, newidiodd y trefniadau hirsefydledig ar gyfer darparu gwasanaethau ocsigen yn y cartref yng Nghymru a Lloegr o dan gcontract pum mlynedd newydd i gyflenwi gwasanaeth integredig. Dyfarnwyd y contract ocsigen ar gyfer Cymru gyfan i Air Products Plc (Air Products), a fyddai'n gwbl gyfrifol am gyflenwi ocsigen yn y cartref ac am ddarparu a chynnal a chadw offer.
- 2 Prif amcan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (yr Adran) Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran y newid hwn oedd darparu gwasanaeth symlach, mwy effeithlon a chlinigol well i gleifion. Yn ogystal ag integreiddio'r cyflenwad o wasanaethau ocsigen yn y cartref drwy'r contract newydd, roedd y trefniadau newydd hefyd yn rhagweld y byddai asesiad clinigol arbenigol o anghenion cleifion yn cael ei gyflwyno. Rhagwelodd yr Adran y gallai'r newid i'r trefniadau newydd gynyddu costau'r gwasanaeth i gychwyn, ond y gobaith oedd y byddai'r cyflenwad o ofal effeithiol yn gwella gan leihau costau yn y tymor hir.
- 3 O fewn ychydig ddyddiau i ddechrau'r contract, methodd y trefniadau newydd oherwydd y galwadau anrhagweladwy a digynsail a osodwyd ar y gwasanaeth newydd gan gleifion a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd. O ganlyniad, nid oedd modd i Air Products ddiwallu anghenion cleifion o fewn y terfynau amser disgwyliedig. Ymatebodd y GIG yng Nghymru yn gyflym i'r argyfwng hwn. Rhoddodd yr Adran gyfarwyddyd i Fyrddau Iechyd Lleol (BILLau) ailgychwyn y trefniadau blaenorol lle'r oedd fferylwyr cymunedol yn darparu cyflenwadau o ocsigen silindr, fel trefniant wrth gefn ar gyfer y trefniadau newydd.
- 4 Roedd y contract yn cwmpasu Cymru a Lloegr, a gwelwyd y problemau gyda'r contract newydd yn y ddwy wlad. Mae ein harchwiliad wedi canolbwyntio ar y sefyllfa yng Nghymru. Cynhaliwyd archwiliad gennym i ganfod p'un a aeth y GIG yng Nghymru i'r afael â chyflwyno'r trefniadau newydd mewn ffordd effeithiol, ac ac ydynt wedi cyflawni'r amcanion, sef safon glinigol uwch a gwasanaeth effeithlon.
- 5 Canfuwyd nad oedd y GIG yng Nghymru wedi gwneud paratodau digonol ar gyfer cyflwyno'r contract newydd i ddarparu ocsigen yn y cartref. Cafwyd oedi a dryswch wrth baratoi ar ei gyfer oherwydd her gyfreithiol gan gynigydd aflwyddiannus a'r newidiadau dilynol i'r amserlen ar gyfer gweithredu'r contract newydd. Yn ogystal â'r amserlen dynn a bennwyd ar gyfer y gwaith paratoi gwaethygydd y sefyllfa ymhellach gan wybodaeth wael o ran nifer y cleifion a fyddai'n cael eu heffeithio gan y newid hwn a manylion y cleifion hynny. O ganlyniad, roedd y broses o hysbysu cleifion am y gwasanaeth newydd yn hwyr iawn, sy'n debygol o fod wedi cyfrannu'n sylweddol at y lefel aruthrol o uchel o alw a welwyd i gychwyn. Cafwyd problemau hefyd o ran y defnydd o'r ffurflen archebu newydd gan feddygfeydd teulu. Cyfrannodd y ffactorau hyn at fethiant uniongyrchol y trefniadau newydd gan nad oedd y contractwr newydd yn gallu ymdopi â'r lefel annisgwyl o uchel o alw.

- 6 Er gwaethaf rhywfaint o arian ychwanegol, nid yw'r buddiannau bwriadedig i gleifion o ran yr asesiad clinigol arbenigol wedi'u gwireddu hyd yma. Mae'r cyflenwad integredig newydd o wasanaethau ocsigen yn y cartref wedi'i sefydlu bellach ar gost sy'n weddol debyg i gost y trefniadau blaenorol ond dim ond ar ôl saith mis o weithredu'r trefniadau blaenorol yn barhaus ochr yn ochr â'r gwasanaeth newydd, ar gost ychwanegol.

Nid oedd y GIG wedi gwneud paratodau digonol ar gyfer cyflwyno'r contract newydd i ddarparu ocsigen yn y cartref

- 7 Arweiniodd her gyfreithiol i'r contract newydd gan un o'r ceiswyr aflwyddiannus at ansicrwydd o fewn y GIG o ran p'un a fyddai'r contract newydd yn cael ei gyflwyno a phryd y byddai hynny'n digwydd. Er i Adran Iechyd a Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cynulliad) ohirio dechrau'r contract newydd bedwar mis o fis Hydref 2005 i fis Chwefror 2006, effeithiodd yr ansicrwydd hwn ar gyflymder y paratodau.
- 8 Roedd y wybodaeth a ddaliwyd gan y GIG am y cleifion hynny a oedd yn derbyn cyflenwadau ocsigen yn y cartref yn wael. O ganlyniad, aeth y gwaith o sicrhau bod y wybodaeth a oedd ar gael am gleifion a oedd yn derbyn gwasanaethau ocsigen yn gywir yn ei flaen hyd nes yr oedd disgwyl i'r contract newydd ddechrau ac arweiniodd at oedi o ran hysbysu cleifion am y newidiadau.
- 9 Er i Air Products ddyblu lefel y cymorth a oedd ar gael drwy ei ganolfannau galwadau i gychwyn er mwyn mynd i'r afael â lefel uchel o alw i gychwyn, roedd y cymorth hwn yn gwbl annigonol i ddelio â'r cynnydd mewn

ymholiadau ac archebion ar gyfer cyflenwadau ocsigen a welwyd yn ystod diwrnodau cyntaf y contract newydd.

- 10 Roedd meddygon teulu yn ei chael hi'n anodd defnyddio'r Ffurflen Archebu Ocsigen yn y Cartref newydd ac arweiniodd hyn at broblemau sylweddol o ran archebion anghyflawn neu archebion dyblyg.


Nid yw buddiannau bwriadedig y trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau ocsigen yn y cartref a'r asesiad clinigol arbenigol cysylltiedig wedi'u gwireddu'n llawn

- 11 Ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad yn gyflym i'r argyfwng o ran y contract newydd er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o wasanaethau ocsigen. Rhoddodd gyfarwyddyd i BILlau ailgychwyn y trefniadau blaenorol â fferyllwyr cymunedol a sefydlodd drefniadau trosglwyddo er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo i Air Products mewn ffordd drefnus.
- 12 Llwyddodd y trefniadau trosglwyddo hyn i adfer y cyflenwad ocsigen yn y cartref ac, ar ôl i'r trefniadau hyn gael eu hymestyn o chwech i saith mis, roedd y cyflenwad o wasanaethau ocsigen yn y cartref wedi'i drosglwyddo i Air Products. Fodd bynnag, arweiniodd y trefniadau trosglwyddo hyn at gost ychwanegol i'r GIG oherwydd cynnydd yn y taliadau a godwyd gan fferyllwyr cymunedol i helpu i dalu'r costau ychwanegol yr aed iddynt wrth ailgychwyn eu gwasanaethau blaenorol.

- 13** Erbyn dechrau 2007, roedd BILlau mewn anghydfod ynghylch rhwng £1.3 miliwn a £1.5 miliwn o daliadau gan Air Products. Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad â'r Adran Iechyd y byddai Uned Rheoli Contractau Canolog Masnachol (CCCMU) yr Adran yn cynnwys Cymru yn ei thrafodaethau ag Air Products. Llofnodwyd y setliad y cytunwyd arno ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Gweinidogion Cymru ac Air Products ar 31 Hydref 2007. Mae CCCMU yr Adran Iechyd yn amcangyfrif y bydd y GIG yng Nghymru yn cael budd net o £960,000 o'r trafodaethau hyn dros gyfnod llawn y contract, sef pum mlynedd.
- 14** Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi gwneud cynnydd araf o ran comisiynu gwasanaethau clinigol arbenigol i asesu p'un a oes angen ocsigen ar gleifion, ac i sicrhau bod y swm cywir yn cael ei ragnodi ar gyfer cleifion a fyddai'n cael budd clinigol ohono mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion. Heb yr asesiadau arbenigol hyn o anghenion, nid yw'r trefniadau newydd wedi cyflawni'r buddiannau clinigol a fwriadwyd i gleifion eto.
- 15** O ganlyniad i'r wybodaeth wael a gafwyd yn flaenorol am gleifion a oedd yn cael gwasanaethau ocsigen yn y cartref, bu'n anodd i'r Adran amcangyfrif cost y contract newydd. Fel y bu hi, mae cost flynyddol y contract newydd sef £6 miliwn yn uwch na'r £2 filiwn y flwyddyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol, er ei bod yn debyg i gost flynyddol y trefniadau blaenorol. Fodd bynnag, mae potensial sylweddol i leihau nifer y gwasanaethau ocsigen a ddarperir i gleifion nad oes angen iddynt gael ocsigen at ddibenion clinigol.

Argymhellion

- 16** Mae nifer o wersi i'w dysgu o'r ffordd y gweithredwyd y trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau ocsigen yn y cartref yng Nghymru.
- i** Roedd buddiannau i Gymru yn sgîl cymryd rhan yn y trefniadau cytundebol newydd a oedd yn cwmpasu Cymru a Lloegr ond ni wnaeth Llywodraeth y Cynulliad ystyried amrywio'r ffordd y gweithredwyd y contract newydd yng Nghymru. Byddai wedi bod yn llai o risg, er enghraifft, petai'r GIG yng Nghymru wedi treialu'r trefniadau newydd cyn eu gweithredu ymhob rhan arall o Gymru, neu petai wedi'u gweithredu'n raddol.
 - O ran y cyfryw gontractau sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr yn y dyfodol, argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad gadw'r opsiwn - a, lle y bo'n briodol, arfer yr opsiwn hwnnw - i amrywio'r ffordd y caiff y trefniadau cytundebol newydd eu gweithredu yng Nghymru er mwyn lleddfu'r risgiau cysylltiedig.
 - ii** Roedd yr amserlen ar gyfer paratoi ar gyfer dechrau'r contract newydd yn dynn iawn ac ni chafwyd unrhyw drefniadau wrth gefn pe bai problemau yn codi. Yn yr achos hwn, nid oedd digon o wybodaeth ar gael am y cleifion hynny yr effeithiwyd arnynt gan y trefniadau newydd ac, o ganlyniad, roedd y wybodaeth a ddarparwyd i'r contractwr newydd yn anghyflawn.
 - O ran y cyfryw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad ganiatáu amser ychwanegol rhag ofn na fydd y gwaith paratoadol yn mynd rhagddo fel



y disgwylir; yn enwedig pan nad yw'r wybodaeth sydd ei hangen i weithredu'r trefniadau newydd ar gael yn hawdd.

iii Un o'r ffactorau a gyfrannodd at fethiant uniongyrchol y trefniadau newydd oedd swm aruthrol y galwadau gan gleifion a'u meddygon teulu yn gwneud cais am wybodaeth am y trefniadau newydd. Tanseiliwyd ymdrechion y contractwr i gyfathrebu â chleifion cyn dechrau'r contract newydd gan wybodaeth annigonol am y cleifion dan sylw. Gwaethygydd y problemau hyn gan broblemau a oedd yn ymwneud â chwblhau'r ffurflenni archebu newydd gan feddygyfeydd teulu a arweiniodd at archebion anghyflawn a dyblyg.

■ O ran y cyfryw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad oruchwylio effeithiolrwydd y modd y mae cyrff iechyd yn cyfathrebu â chleifion ynglŷn â newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. Dylai hefyd oruchwylio'r broses gyfathrebu effeithiol â gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd am eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran sicrhau bod y trefniadau newydd yn gweithio.

iv Yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi arian i BILlau gefnogi'r broses o ddatblygu asesiadau clinigol arbenigol. Er hynny, mae cynnydd BILlau wrth sefydlu'r cyfryw asesiadau wedi bod yn araf a hebddynt, ni chaiff buddiannau bwriadedig y trefniadau newydd, yn cynnwys gwerth am arian wrth gyflenwi gwasanaethau ocsigen yn y cartref, eu gwireddu.

■ Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyfeirio BILlau ac ymddiriedolaethau'r GIG at flaenoriaethu datblygiad asesiadau clinigol arbenigol. Dylai hefyd fonitro'n agos y cynnydd a wnaed gan y GIG yng Nghymru wrth ddatblygu'r cyfryw wasanaethau a ph'un a yw'r arian ychwanegol a neilltuwyd i BILlau wedi'i ddefnyddio'n effeithiol.

Rhan 1 - Nid oedd y GIG wedi gwneud paratodau digonol ar gyfer cyflwyno'r contract newydd i ddarparu ocsigen yn y cartref

1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio'r sail resymegol dros y trefniadau newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ocsigen yn y cartref ac yn asesu i ba raddau y llwyddodd y GIG yng Nghymru i gyflwyno'r trefniadau newydd.

Cafwyd cytundeb cyffredinol yn y GIG yng Nghymru ynghylch yr angen i foderneiddio'r modd y darperir cyflenwadau ocsigen yn y cartref


1.2 Cyn 1 Chwefror 2006, roedd gwasanaethau i ddarparu cyflenwadau ocsigen yn y cartref wedi bod yn ddigynfnewid bron ers degawdau, ac fe'u rhannwyd yn ddwy brif ran:

- **Silindrau** a gyflenwyd yn dilyn rhagnodiad gan feddyg teulu drwy fferyllwyr cymunedol lleol a oedd yn eu caffael yn annibynnol ac yn ailgodi'r gost ar Lywodraeth y Cynulliad.
- **Cyflenwadau crynodyddion** a gyflenwyd fel rhan o wasanaeth wedi'i deilwra'n arbennig i ddarparu allfeydd o amgylch y cartref er mwyn sicrhau nad oedd angen i gleifion gario silindrau trwm o amgylch gyda hwy. Darparwyd y math hwn o gyflenwad yng Nghymru gan ddau gontractwr ar wahân: Air Products yn Ne Cymru; a DeVilbiss yng Ngogledd Cymru.

1.3 Ym mis Mehefin 2003, pan roedd y trefniadau cytundebol blaenorol ar gyfer darparu gwasanaethau ocsigen yn y cartref ar fin dod i ben, penderfynodd Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad foderneiddio gwasanaethau ocsigen yn y cartref ar y cyd â Lloegr (gweler **Atodiad 1** i gael cronoleg lawn o'r digwyddiadau a oedd yn ymwneud â'r newidiadau). Roedd y trefniadau presennol ar gyfer rhagnodi ocsigen yn y cartref yn gymhleth gydag amrywiaeth o lwybrau cyflenwi a thalu; ac roedd tystiolaeth yn awgrymu bod diffyg asesiad arbenigol o angen ar gyfer y gwasanaethau hyn yn arwain at ragnodi ocsigen yn y cartref mewn ffordd

1.4 Sefydlodd yr Adran grŵp cynghori, sef y Grŵp Cyfeirio Therapi Ocsigen, i gynorthwyo gyda phroses ymgynghori ar fanylion y broses foderneiddio a oedd wedi'i chymeradwyo. Roedd y Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bartïon allweddol, yn cynnwys clinigwyr, BILlau, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, Cymdeithas Thorasig Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac eraill.

1.5 Cadarnhaodd proses ymgynghori'r Adran fod cydnabyddiaeth gyffredinol yn y GIG yng Nghymru bod angen i'r trefniadau presennol ar gyfer gwasanaethau ocsigen yn y cartref gael eu diweddarau a'u symleiddio. Rhoddodd y Grŵp Cyfeirio Therapi Ocsigen sylwadau hefyd ar yr opsiynau posibl ar gyfer datblygu asesiad clinigol arbenigol i wella ansawdd clinigol y gwasanaeth i gleifion, a fyddai'n rhedeg ochr yn ochr â'r contract newydd ar gyfer cyflenwi'r cyfryw wasanaethau.



- 1.6 Gwelodd yr Adran fanteision ymuno â chontract newydd â Lloegr, sef y byddai Cymru yn cael budd o arbenigedd contractio Asiantaeth Prynu a Chyflenwi'r GIG, a gellid sicrhau pŵer prynu ychwanegol a chystadleuaeth barhaus dros amser.
- 1.7 Nodir y newid yn y trefniadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ocsigen yn y cartref yn Ffigur 1 isod.

Ffigur 1 - Newidiadau i'r broses o ddarparu cyflenwadau ocsigen yn y cartref

- O dan y trefniadau blaenorol, roedd gofynion ocsigen yn y cartref yn cael eu harchebu ar gyfer cleifion gan feddygon teulu, wedi'u rhagnodi drwy ddefnyddio ffurflen WP10. Roedd fferyllfeydd cymunedol yn darparu silindrau ocsigen ac roedd contractwyr preifat yn darparu crynodyddion ocsigen.
- O 1 Chwefror 2006, cafodd ocsigen yn y cartref ei archebu gan feddygon teulu i gleifion o un ffynhonnell - roedd Air Products yn cyflenwi Cymru gyfan - gan ddefnyddio Ffurflen Archebu Ocsigen yn y Cartref newydd (yr HOOF). Roedd Air Products yn dosbarthu cyflenwadau ocsigen yn uniongyrchol i'r claf ac yn darparu gwasanaeth 'un stop' ar gyfer cleifion, clinigwyr a BILlau. Ochr yn ochr â'r newid hwn i'r cyflenwad ocsigen yn y cartref, roedd yn ofynnol i BILlau gomisiynu ymddiriedolaethau'r GIG i ddarparu gwasanaethau asesiadau clinigol arbenigol er mwyn cynnal gwerthusiad cychwynnol ac adolygiad dilynol o anghenion ocsigen cleifion.

Arweiniodd her gyfreithiol i'r contract newydd at ansicrwydd o fewn y GIG a effeithiodd ar gyflymder y paratodau

- 1.8 Yn dilyn proses dendro i ddewis y contractwyr newydd (gweler Ffigur 2 isod), ym mis Mawrth 2005, ysgrifennodd yr Adran at ymddiriedolaethau'r GIG a BILlau yn eu hysbysu o'r trefniadau newydd ar gyfer y

Ffigur 2 - Y contract pum mlynedd newydd ar gyfer darparu gwasanaethau ocsigen yn y cartref

Mae'r trefniadau cytundebol newydd yn cwmpasu deg rhanbarth daearyddol gwahanol yn Lloegr ynghyd ag un rhanbarth sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Dyfarnwyd tendrau ar sail ranbarthol ac Air Products oedd y dewis cyflenwr ar gyfer Cymru, yn ogystal â chwech o'r deg rhanbarth yn Lloegr. Cyflenwadau Iechyd Cymru oedd yn gyfrifol am reoli'r contract yng Nghymru a monitro'r safonau ansawdd.

Gwasanaeth Therapi Ocsigen yn y Cartref, gan nodi'r newidiadau sylweddol y disgwyliid iddynt gael eu gweld o fis Hydref 2005. Cyfarfu swyddogion o'r Adran â BILlau hefyd ar ddau achlysur ar ddechrau 2005 i amlinellu'r newidiadau arfaethedig ac i atgyfnerthu'r angen i BILlau weithredu.

- 1.9 Fodd bynnag, golygai her gyfreithiol gan gynigiwr aflwyddiannus nad oedd modd i'r Adran gadarnhau pwy oedd y contractwr llwyddiannus na llofnodi contractau ar gyfer y gwasanaeth newydd tan fis Gorffennaf 2005. O ganlyniad, gohiriwyd dechrau'r contract bedwar mis o 1 Hydref 2005 i 1 Chwefror 2006.
- 1.10 Arweiniodd y camau cyfreithiol at ansicrwydd o fewn y gwasanaeth iechyd o ran p'un a fyddai'r trefniadau newydd yn mynd rhagddynt a phryd y byddai hynny'n digwydd. Golygai'r ansicrwydd hwn fod paratodau'r BILlau yn arafach.

Roedd yr amser a roddwyd i baratoi ar gyfer cyflwyno'r contract newydd yn dynn, a gwaethydwyd y sefyllfa gan y wybodaeth wael am gleifion a arweiniodd at oedi wrth hysbysu cleifion am y newidiadau

- 1.11** Mae'r contract yn cyfeirio at gyfnod trosglwyddo cyn y contract, sef y cyfnod rhwng yr hysbysiad am ddyfarnu'r contract a dechrau'r contract (y dyddiad bwriadedig gwreiddiol oedd 1 Hydref 2005). Yn sgîl yr oedi wrth lofnodi'r contract, gohiriwyd dyddiad dechrau'r contract i 1 Chwefror 2006. Golygai'r oedi hwn wrth ddechrau'r contract newydd mai tua chwe mis oedd ar gael i ddatblygu a gweithredu cynlluniau i gyflwyno'r gwasanaeth integredig newydd. Cydnabu'r Adran fod yr amserlen ar gyfer gweithredu'n contract newydd yn dynn iawn. Soniodd Air Products wrthym eu bod wedi cadarnhau bod yr amserlen hon yn ddichonadwy yn eu barn hwy, ond eu bod wedi mynegi pryderon ei bod yn peri risg gan nad oedd unrhyw amser ychwanegol wedi'i neilltuo.
- 1.12** Cyfarfu cynrychiolwyr Byrddau Iechyd Lleol â'r Adran, Cyflenwadau Iechyd Cymru a swyddogion Air Products yn gyfnodol yn ystod hanner olaf 2005 i drafod materion a gododd yn ystod y cyfnod trosglwyddo cyn y contract. Roedd yn amlwg o'r trafodaethau hyn fod y paratodau ar gyfer y contract newydd yn mynd rhagddynt yn araf a bod y cyfranogwyr yn pryderu ynghylch p'un a allent gael eu cyflawni erbyn y dyddiad cychwyn sef 1 Chwefror 2006.
- 1.13** Mae'r contract yn rhoi cyfrifoldebau clir i'r contractwr yn ystod y cyfnod hwn i gyfathrebu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid; ac i BILlau i arwain a rheoli'r broses o gyflwyno'r gwasanaeth newydd. Un o'r tasgau allweddol yr oedd angen i BILlau ei chyflawni cyn dechrau'r contract newydd oedd dilysu faint o gleifion a oedd yn cael ocsigen silindr rhagnodedig gan eu meddygon teulu ynghyd â dilysu manylion y cleifion hynny.
- 1.14** Nid oedd Byrddau Iechyd Lleol yn cadw data ar nifer y cleifion a oedd yn cael gwasanaethau ocsigen yn y cartref - roedd yn rhaid adalw'r wybodaeth hon drwy gynnal chwiliadau ar system gyfrifiadurol pob meddyg teulu am gleifion y nodwyd bod ocsigen wedi'i ragnodi ar eu cyfer yn eu hanes meddygol. Roedd yn rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol sicrhau hefyd bod cleifion wedi rhoi caniatâd i'w manylion gael eu trosglwyddo i Air Products. Dywedasant wrthym eu bod hwy a meddygfeydd teulu wedi gwneud ymdrech sylweddol i sicrhau bod cleifion yn dychwelyd eu ffurflenni caniatâd, a bod y broses wedi bod yn un llafurus iawn. Roedd Byrddau Iechyd Lleol yn wynebu tasg anodd wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r contract ac roedd rhai BILlau yn dal i anfon gwybodaeth am gleifion a oedd yn cael ocsigen silindr i Air Products yng nghanol mis Ionawr 2006, ychydig amser yn unig cyn y disgwylid i'r trefniadau newydd gael eu rhoi ar waith. O ganlyniad, ychydig iawn o amser a oedd gan y contractwr newydd, ar ran y BILlau, i ysgrifennu at gleifion i'w hysbysu am oblygiadau'r trefniadau newydd cyn iddynt ddechrau.
- 1.15** Dywedodd Air Products wrthym fod ganddynt wybodaeth dda am y cleifion hynny y darparwyd cyflenwadau iddynt o dan y trefniadau blaenorol (cleifion crynodyddion yn Ne Cymru a hefyd lle'r oeddent wedi darparu

cyflenwadau silindr i fferyllwyr cymunedol). Fodd bynnag, nid oedd manylion y cleifion a drosglwyddwyd i Air Products gan BILlau bob amser yn gyflawn, yn gywir nac wedi'u diweddarau. Mae Air Products yn amcangyfrif eu bod wedi derbyn manylion tua 70 y cant o gleifion a oedd yn cael gwasanaethau ocsigen yn y cartref a bod y cwmni, yn dilyn hyn, wedi treulio tua wyth mis yn rhoi trefn ar ei gronfa ddata o gleifion.

Cafwyd negeseuon cymysg o ran p'un a oedd yn fwriad cyflwyno'r contract newydd yn raddol neu ei gyflwyno'n syth

1.16 Nod Llywodraeth y Cynulliad wrth reoli'r broses o gyflwyno'r contract oedd:

- symud yn gyflym i un gwasanaeth er mwyn osgoi dryswch i gleifion a chlinigwyr;
- galluogi fferyllwyr cymunedol i ddod â'r gwasanaeth a ddarparwyd ganddynt i ben cyn gynted ag yr oeddent yn dymuno; a
- galluogi cyflenwyr o dan y trefniadau blaenorol i adleoli offer i ranbarthau newydd er mwyn osgoi achosion o ddyblygu a phroblemau cyflenwi eraill.

1.17 Roedd y contract yn darparu ar gyfer cyfnod trosglwyddo ar ôl y contract o chwe mis, o ddechrau'r contract ar 1 Chwefror 2006 i 31 Gorffennaf 2006. Y bwriad oedd y byddai Air Products yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyflenwadau crynodyddion (roedd Air Products eisoes yn cyflenwi De Cymru), cleifion newydd a chleifion brys ar unwaith ar 1 Chwefror. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai cleifion eraill a oedd yn cael cyflenwad rheolaidd wedi'i ragnodi gan eu meddyg teulu a'i ddarparu gan fferyllwyr cymunedol, yn

trosglwyddo i Air Products unwaith y byddai eu rhagnodiad, a oedd yn ddilys am chwe mis, wedi dod i ben. Yn y ffordd hon, y bwriad oedd y byddai'r contract newydd yn cael ei gyflwyno'n raddol yn ystod chwe mis cyntaf y contract.

1.18 Fodd bynnag, nododd canllawiau gan yr Adran y byddai trefniadau BILlau ar gyfer darparu cyflenwadau ocsigen silindr yn dod i ben pan fyddai'r contract newydd yn dechrau. Fel y bu hi, dechreuodd llawer o fferyllwyr cymunedol leihau eu stoc o gyflenwadau ocsigen cyn dyddiad dechrau'r contract newydd sef 1 Chwefror er mwyn paratoi i adael y gadwyn gyflenwi. Dywedodd Air Products wrthym eu bod wedi argymhell yn gryf y dylid trosglwyddo cleifion yr oedd angen gwasanaethau ocsigen yn y cartref arnynt i Air Products yn raddol, er enghraifft yn ôl y math o therapi yr oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, ym marn yr Adran, ychydig iawn o hyblygrwydd oedd ganddynt i roi trefniadau gweithredu a oedd yn sylweddol wahanol i'r rhai yn Lloegr ar waith ac felly nid ystyriwyd y posibilrwydd o dreialu'r broses o gyflwyno'r trefniadau newydd cyn eu gweithredu'n llawn.

Roedd y paratodau ar gyfer delio â chyfnod cychwynol prysur o ran galw yn gwbl annigonol i ddelio â'r cynnydd a welwyd ar ddechrau'r contract newydd

1.19 Dywedodd Air Products wrthym nad oeddent wedi rhagweld maint gwirioneddol y galw ar ddechrau'r contract newydd. Ar 1 Chwefror 2006, diwrnod cyntaf y contract newydd, daeth yn amlwg yn gyflym bod Air Products yn derbyn llawer mwy o alwadau ffôn a

negeseuon ffacs ar gyfer archebion ocsigen yn y cartref o bob cwr o Gymru ac o'i chwe rhanbarth yn Lloegr nag a ragwelwyd. Roedd y cwmni wedi gwneud paratodau i dderbyn 2,000 o archebion ar ffurflenni archebu HOOF yn ystod diwrnodau cyntaf y contract newydd, ddwywaith yr archebion a ragwelwyd ar gyfartaledd. Fodd bynnag, roedd yr amcangyfrif hwn yn gwbl anghywir a nododd Air Products eu bod wedi derbyn 10,000 o ffurflenni archebu HOOF yn ystod tri diwrnod cyntaf y gwasanaeth.

- 1.20** Roedd nifer y galwadau ffôn a dderbyniwyd gan Air Products yn llawer uwch na'r hyn a ragwelwyd hefyd. Roeddent wedi disgwyl derbyn tua 2,000 o alwadau'r dydd (ddwywaith cymaint ag yr oeddent yn eu derbyn ar gyfartaledd). Fodd bynnag, derbyniodd canolfan alwadau'r cwmni 15,500 o alwadau yn ystod y tri diwrnod cyntaf ym mis Chwefror 2006. Nododd Air Products fod British Telecom wedi gorfod 'gwrthod' 27,000 o alwadau ychwanegol oherwydd nad oedd ei system yn gallu ymdopi â'r lefel honno o weithgarwch. Roedd llawer o'r galwadau a dderbyniwyd gan gleifion a'u meddygon teulu yn gofyn am esboniadau o'r trefniadau newydd.

Roedd diffyg ymwybyddiaeth mewn meddygfeydd teulu ynghylch sut y byddai'r gwasanaeth newydd yn gweithio a phroblemau difrifol o ran defnyddio'r ffurflenni archebu newydd

- 1.21** Cafwyd anawsterau ychwanegol sylweddol hefyd gyda'r ffurflenni archebu HOOF a gyflwynwyd gan feddygon teulu i Air Products, gyda'r cwmni yn nodi'r canlynol yn ystod wythnos gyntaf y contract:
- roedd hyd at 80 y cant o'r dogfennau hyn yn anghyflawn neu wedi'u cwblhau'n anghywir;
 - roedd hanner wedi'u nodi fel archebion brys; a
 - dim ond enw a rhif ffôn y claf oedd ar rai ohonynt ac nid oeddent yn nodi unrhyw fanylion eraill am y claf.
- 1.22** Arweiniodd y cyfnodau hir o aros a nodwyd cyn gallu cysylltu ag Air Products dros y ffôn at feddygon teulu yn cyflwyno archebion dyblyg dros y ffacs i geisio sicrhau cyflenwad, a waethygodd y baich ar y contractwr ymhellach.



Rhan 2 - Nid yw buddiannau bwriadedig y trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau ocsigen yn y cartref a'r asesiad clinigol arbenigol cysylltiedig wedi'u gwireddu'n llawn hyd yn hyn

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried a yw buddiannau'r trefniadau newydd wedi'u gwireddu. Y buddiannau hyn oedd:

- integreiddio, symleiddio a moderneiddio'r cyflenwad o wasanaethau ocsigen yn y cartref;
- gwella'r broses o asesu anghenion cleifion drwy gynnwys clinigwyr arbenigwyr yn fwy; a
- thrwy gyflawni'r ddau nod uchod, sicrhau cyflenwad mwy effeithlon a mwy darbodus.

Ymatebodd yr Adran yn gyflym i'r argyfwng drwy ddefnyddio fferyllwyr cymunedol i barhau â'u gwasanaeth blaenorol, ond roedd costau'n gysylltiedig â hyn

2.2 Erbyn trydydd diwrnod y contract newydd, rhoddodd yr Adran gyfarwyddyd i BILlau ofyn i fferyllwyr cymunedol ailgychwyn cyflenwi silindrau ocsigen yn y cartref hyd nes y gallai Air Products ddarparu'r gwasanaeth. Yn y ffordd hon, roedd y ddau lwybr cyflenwi yn rhedeg ochr yn ochr, gydag Air Products yn ehangu eu gwasanaeth yn raddol.

2.3 Cytunwyd ar drefniant trosglwyddo ar gyfer chwe mis cyntaf y contract newydd, hyd at 31 Gorffennaf 2006 (a ymestynnwyd am fis arall yn ddiweddarach) rhwng yr Adran, Cyflenwadau Iechyd Cymru ac Air Products. Yn ystod y cyfnod hwn, parhaodd meddygon

teulu i roi rhagnodiadau WP10 i gleifion ar gyfer cyflenwadau silindrau ocsigen drwy fferyllwyr cymunedol. Ar yr un pryd, dechreuodd meddygon teulu gofrestru cleifion gydag Air Products. Ymatebodd y cwmni i'r broses ffurfiol o drosglwyddo cleifion unigol wrth i'w gapasiti gynyddu yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Unwaith i gleifion gael eu trosglwyddo'n ffurfiol, roedd Air Products yn cysylltu â hwy gan nad oedd angen iddynt wneud cais am eu cyflenwad ocsigen gan eu fferyllwydd cymunedol mwyach.

2.4 Er bod y trefniadau hyn yn hollbwysig i sicrhau'r ddarpariaeth ocsigen yn y cartref, roedd cost yn gysylltiedig â hwy. Cynhaliodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru, y corff trafod ar ran contractwyr fferyllol yng Nghymru, drafodaethau â BILlau ynghylch cynyddu taliadau ar gyfer gwasanaethau ocsigen (gweler *Atodiad 2*). Roedd y cynnydd hwn yn angenrheidiol ym marn Fferylliaeth Gymunedol Cymru, oherwydd roedd llawer o fferyllwyr cymunedol wedi dechrau dirwyn eu gwasanaethau ocsigen i ben cyn cyflwyno'r contract newydd ac felly aed i gostau ychwanegol wrth ailgychwyn cyflenwi silindrau ocsigen.


2.5 Dywedodd yr Adran wrth BILlau mai dim ond y tariffau cyffuriau presennol y byddai'n eu talu am wasanaethau ocsigen gan fferyllwyr cymunedol. Nid oedd yn derbyn y dylai'r GIG dalu cyfraddau uwch oherwydd yr argyfwng a soniodd wrth BILlau y byddai angen i'r BILlau eu hunain dalu am unrhyw gynnydd mewn cyfraddau a fyddai'n cael ei negodi ar sail leol.

2.6 Cytunodd y rhan fwyaf o'r BILlau yn Ne Ddwyrain, Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y tariff newydd oherwydd, yn eu barn hwy, dyma'r unig ffordd o sicrhau gwasanaeth hanfodol i gleifion yn eu hardal. Ni dderbyniwyd y cyfraddau uwch gan BILI Caerdydd na BILI Sir Fynwy ac er na wnaeth rhai fferyllwyr cymunedol yn yr ardaloedd hynny barhau i ddarparu gwasanaeth, parhaodd y rhan fwyaf ohonynt i wneud hynny. Yng Ngogledd Cymru, arweiniodd trafodaethau at gynnydd o ddeg y cant yn gyffredinol o gymharu â'r cyfraddau blaenorol, a mabwysiadwyd y gyfradd hon gan bob BILI yn y rhanbarth hwnnw. Roedd hyn yn llai o gynnydd na'r tariffau a nodwyd yn **Atodiad 2**.

Roedd Air Products mewn sefyllfa i allu cyflenwi'r holl wasanaethau ocsigen yn y cartref erbyn diwedd y cyfnod trosglwyddo

2.7 Yn ystod y cyfnod trosglwyddo hwn, cyfarfu'r Adran, Cyflenwadau Iechyd Cymru a BILlau yn rhanbarthol unwaith y mis i drafod y materion a oedd yn codi. Neilltuodd bob parti gryn dipyn o amser ac ymdrech i'r gwaith hwn. Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2006, roedd swyddogion y GIG a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn teimlo'n fwy hyderus bod y rhan fwyaf o'r cleifion yr oedd

Ffigur 3 - Cyfanswm costau cyflenwadau ocsigen yn y cartref yn ystod blwyddyn gyntaf y contract newydd, o fis Chwefror 2006 i fis Ionawr 2007




Noder

Y symiau yr anfonebwyd ar eu cyfer gan Air Products yw'r ffigurau sy'n ymwneud â chost y gwasanaethau a ddarparwyd gan Air Products ac nid y taliadau a wnaed gan BILlau (yr ataliwyd taliadau gan rai ohonynt hyd nes bod anfonebau y bu anghydfod yn eu cylch yn cael eu datrys).

Mae ffigurau Air Products yn cynnwys cost y crynyddion a chyflenwadau silindrau ocsigen a ddarperir o dan y cytundeb newydd – ac felly nid yw'n cynnwys costau'r cleifion hynny sy'n derbyn cyflenwadau crynyddion gan Air Products o dan y cytundeb blaenorol cyn iddynt drosglwyddo i'r cytundeb newydd o 1 Mai 2006. Mae'r ffigurau ar gyfer 'ocsigen drwy WP10' yn gymwys i gyflenwadau silindrau ocsigen yn unig.

Ffynhonnell: Data WP10 - Data Atebion Iechyd Cymru; Data HOOOF - Canolfan Gwasanaethau Busnes



angen gwasanaethau ocsigen arnynt wedi'u trosglwyddo i Air Products. Nododd Byrddau Iechyd Lleol ostyngiad parhaus yn y defnydd o ffurflenni rhagnodi WP10 a gwasanaethau a ddarparwyd gan fferyllwyr cymunedol, wrth i Air Products ddarparu mwy o gyflenwadau ocsigen i gleifion.

- 2.8** Yn ystod mis Gorffennaf 2006, rhoddodd yr Adran fis o estyniad i'r cyfnod trosglwyddo hwn, gyda'r disgwyliad y byddai'r contract newydd yn dod yn gwbl weithredol o 1 Medi 2006. Roedd a wnelo'r penderfyniad hwn â phryderon ynghylch y galw posibl am ocsigen gan y rhai a oedd yn treulio'u gwyliau yng Nghymru yn ystod yr haf, a hefyd oherwydd yr amserlen ar gyfer cyflwyno digon o gyflenwadau newydd o silindrau ocsigen symudol gan Air Products.
- 2.9** Fel y dangosir yn **Ffigur 3**, gostyngodd cost y taliadau i fferyllwyr cymunedol ar gyfer gwasanaethau ocsigen yn y cartref yn raddol yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Mae'r costau a anfonebwyd gan Air Products yn dangos cynnydd cyfatebol yn ystod pob mis o'r cyfnod trosglwyddo, gyda'r cynnydd yn sefydlogi ar ôl mis Awst 2006. Erbyn diwedd y cyfnod trosglwyddo ar 1 Medi 2006, roedd y cyflenwad o archebion ocsigen newydd wedi'i drosglwyddo i'r contractwr.

Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi gwneud cynnydd araf o ran comisiynu gwasanaethau clinigol arbenigol i asesu p'un a oes angen ocsigen ar gleifion

- 2.10** Un o amcanion allweddol y trefniadau newydd oedd gwella safon glinigol y gwasanaethau a ddarperir i gleifion drwy gynnwys clinigwyr arbenigol yn y broses o asesu eu hanghenion. Heb asesiad clinigol effeithiol,

mae risg y gallai cleifion dderbyn gwasanaethau ocsigen a allai beryglu eu hiechyd a'u diogelwch. Gall asesiadau clinigol helpu i osgoi costau sylweddol diangen hefyd drwy sicrhau na chaiff ocsigen ei ddarparu i gleifion nad oes ei angen arnynt.

- 2.11** Rhagwelodd yr Adran y byddai pob claf newydd a chlaf presennol, maes o law, yn cael adolygiad ac ailasesiad clinigol rheolaidd gan dîm arbenigol. Bu'r trefniadau presennol yn ddibynnol ar feddygon teulu. Fodd bynnag, bu'r broses o ddatblygu'r agwedd bwysig hon ar y trefniadau newydd yn araf iawn o'r cychwyn. Roedd hyn yn rhannol oherwydd ansicrwydd ynghylch yr arian a oedd ar gael i gomisiynu'r cyfryw asesiadau, a hefyd oherwydd y sylw yr oedd angen ei roi i ddatrys problemau'n ymwneud â'r cyflenwad ocsigen.
- 2.12** Ym mis Mehefin 2005, cyn dechrau'r contract newydd, ysgrifennodd yr Adran at ymddiriedolaethau'r GIG a BILlau yn esbonio'r asesiad arfaethedig a'r camau dilynol, gan gyfeirio at ganllawiau Cymdeithas Thorasig Prydain. Yn y llythyr, nodwyd bod angen i BILI weithio gydag ymddiriedolaethau'r GIG i adolygu'r broses o gomisiynu gwasanaethau gofâl anadlol yn lleol, yn cynnwys darparu asesiadau clinigol arbenigol. Nododd yr Adran hefyd y byddai'n ceisio talu'r gost ychwanegol i BILlau ar gyfer comisiynu'r gwasanaethau hyn cyhyd ag y byddai hynny'n bosibl, a gofynnodd am grynodedb o'r gwasanaethau arfaethedig i'w comisiynu gan ymddiriedolaethau'r GIG. Roedd y crynodeb hwn yn gofyn am fanylion am nifer y cleifion a fyddai'n cael eu trin, nifer yr adolygiadau a fyddai'n cael eu cynnal ar gleifion bob blwyddyn, a manylion am staff ychwanegol a fyddai'n cael eu cyflogi a chyfanswm cost y gwasanaeth.

Astudiaeth Achos A - Asesiad clinigol o anghenion ym Mlaenau Gwent

Yn sgîl yr achosion uchel o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ym Mlaenau Gwent, sefydlwyd Tîm Anadlol Aml-Broffesiynol Blaenau Gwent yn 2005. Mae meddyg anadlol ymgynghorol yn Ymddiriedolaeth GIG Gwent yn darparu arweiniad clinigol i'r tîm hwn, sy'n cynnwys staff nyrsio a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig, yn cynnwys Arweinydd Gwella Gwasanaethau'r BILI ar gyfer Clefydau Anadlol. Sefydlodd y tîm wasanaeth asesu arbenigol i gleifion sy'n cael therapi ocsigen yn seiliedig ar Ganllawiau Cymdeithas Thorasig Prydain.

Nododd gwerthusiad lleol fod y broses asesu gychwynnol ar ddiwedd 2005 wedi arwain at ostyngiad o tua 50 y cant yn nifer y cleifion yr ystyriwyd bod therapi ocsigen yn y cartref yn briodol iddynt yn glinigol. Dangosodd y gostyngiad hwn effaith sylweddol bosibl asesiadau arbenigol, yn glinigol ac yn ariannol. Nododd yr asesiad nifer sylweddol o gleifion na fyddent yn cael unrhyw fudd clinigol o barhau i ddefnyddio ocsigen yn y cartref a datgelodd hefyd is-grŵp o gleifion yr oedd eu cyflwr clinigol yn golygu bod terfyn caeth ar faint o ocsigen y dylid ei roi iddynt.

Nododd yr asesiad hefyd fod 30 y cant o'r cleifion a oedd yn defnyddio ocsigen yn y cartref yn ysmegu, arfer gwrthgynhyrchol o ystyried buddiannau'r ocsigen a ddarparwyd. Sicrhaodd y wybodaeth ynghylch y cleifion hynny a oedd yn ysmegu bod modd gwneud ymyriadau priodol, tra'n sicrhau bod cyn lleied o risgiau yn ymwneud ag ocsigen yn y cartref â phosibl.

2.13 Erbyn diwedd mis Medi 2005, roedd BILlau wedi cyflwyno eu cynigion i'r Adran, a ragwelodd gost amcangyfrifedig o tua £5.3 miliwn ar gyfer sefydlu gwasanaethau asesu clinigol. Rhoddodd yr Adran ystyriaeth i'r ffaith mai nod BILlau ac ymddiriedolaethau'r GIG oedd darparu gwasanaethau o'r safonau uchaf o'r cychwyn fel yr amlinellwyd yn y canllawiau ond nad oedd y safonau hyn yn gyraeddadwy o reidrwydd yn syth. Ym mis Rhagfyr 2005, hysbyswyd BILlau bod y cynigion hyn wedi'u gwrthod a gofynnwyd am gynigion diwygiedig. Nododd yr Adran ei bod yn ffafrio proses fwy pragmatig o ddatblygu gwasanaethau dros amser. Mae trafodaethau rhwng Cymdeithas Thorasig Cymru a'r Adran ar y mater hwn yn parhau.

2.14 Ym mis Chwefror 2006, cafodd BILlau ac ymddiriedolaethau'r GIG eu hysbysu gan yr Adran fod hyd yn oed y cynigion a ddiwygiwyd yn gofyn am lawer mwy o adnoddau na'r hyn a oedd ar gael ac am y rheswm hwnnw bod penderfyniad wedi'i wneud i ddyrannu £36,000 i bob BILl ar gyfer gweddill 2005-06. Roedd y penderfyniad i ddyrannu £36,000 i bob BILl yn seiliedig ar raniad cyfartal o'r arian a oedd yn weddill ar

gyfer y broses drosglwyddo. Fodd bynnag, arweiniodd y penderfyniad hwn at gryn dipyn o ddrwgdeimlad ymhlith gweithwyr proffesiynol yn y GIG. Mae swyddogion Byrddau Iechyd Lleol ac eraill wedi cwestiynu'r rheswm dros gynnal proses gynnig pan mai dim ond swm cymharol fach o arian a ddyrannwyd.

2.15 Er bod cryn drafod wedi bod rhwng BILlau ac ymddiriedolaethau'r GIG, mae'r cynnydd o ran datblygu trefniadau asesu arbenigol ledled Cymru wedi bod yn araf hyd yn hyn. Un eithriad, a ystyrir gan yr Adran yn enghraifft o arfer effeithiol, yw'r broses asesu gychwynnol a gynhaliwyd ym Mlaenau Gwent (gweler **Astudiaeth Achos A**). Ni roddwyd unrhyw arian newydd ar gyfer yr asesiad gychwynnol hwn ym Mlaenau Gwent; sicrhawyd ei fod yn bosibl drwy benderfyniad y BILl i ddefnyddio sgiliau priodol a oedd eisoes ar gael yn lleol i gynnal asesiad ac adolygiad. Mae'r profiad ym Mlaenau Gwent yn darparu rhywfaint o dystiolaeth bod modd gwella safon y gofal heb arian ychwanegol sylweddol.

2.16 Ym mis Medi 2007, ysgrifennodd yr Adran at BILlau i'w hatgoffa am eu rhwymedigaethau mewn perthynas â darparu gwasanaethau ar gyfer asesiadau clinigol cychwynnol ar gyfer ocsigen ac adolygiadau dilynol. Cyhoeddwyd hefyd y byddai £1.65 miliwn yn cael ei ddyrannu'n gyfartal rhwng BILlau (£75,000 i bob BILl) i gefnogi'r broses o gomisiynu'r gwasanaethau hyn. Dylai'r cyhoeddiad am yr arian ychwanegol hwn ysgogi cynnydd, er i ni weld cyfnod o 18 mis pan nad oedd buddiannau asesiadau clinigol wedi'u gwireddu i raddau helaeth.

Ar ôl datrys anghydfod ynghylch anfonebau, mae cost y contract newydd yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd ond mae arbedion yn bosibl yn y dyfodol drwy asesu anghenion clinigol cleifion ar gyfer ocsigen yn well

2.17 Gwella gwasanaethau i gleifion oedd y prif ffactor a oedd yn ysgogi'r trefniadau newydd. Fodd bynnag, rhagwelodd yr Adran y byddai'r trefniadau hyn yn arwain at gyflenwad mwy effeithlon a darbodus.

2.18 Cost flynyddol y trefniadau blaenorol oedd tua £6 miliwn y flwyddyn. Rhagwelodd yr Adran y gallai'r trefniadau newydd gostio mwy na'r trefniadau blaenorol i ddechrau, o ganlyniad i'r gwelliannau bwriadedig i wasanaethau, a sicraodd £2 filiwn ychwanegol.

2.19 Yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â'r galw tebygol am wasanaethau ocsigen yn y cartref - y profwyd yn ddiweddarach eu bod yn seiliedig ar ddata annigonol - amcangyfrifodd yr Adran y byddai'r contract newydd gydag Air Products yn costio tua £2 filiwn y flwyddyn.

Er y gallai BILlau ddewis gwrthbwysu cost ychwanegol bosibl asesiadau clinigol arbenigol o unrhyw arbedion yn y gyllideb rhagnodi, nid oedd unrhyw orfodaeth arnynt i wneud hynny.

2.20 Cyfanswm anfonebau Air Products ar gyfer gwasanaethau ocsigen yn y cartref yng Nghymru oedd tua £6.2 miliwn ar gyfer blwyddyn gyntaf y contract, o fis Chwefror 2006 i fis Ionawr 2007. Fodd bynnag, erbyn dechrau 2007, roedd BILlau mewn anghydfod ynghylch rhwng £1.3 miliwn a £1.5 miliwn o anfonebau Air Products, yn enwedig mewn perthynas â:

- y taliadau ar gyfer ocsigen brys a godwyd ar ôl y tri diwrnod cyntaf o wasanaeth;
- achosion lle y gallai fod taliadau wedi'u gwneud ar gyfer gwasanaethau nas derbyniwyd;
- taliadau i BILlau ar gyfer cleifion a gofrestrwyd gyda BILlau eraill (cytunodd y Ganolfan Gwasanaethau Busnes helpu i ddatrys y mater penodol hwn drwy nodi cleifion a briodolwyd yn anghywir i BILlau);
- copïau dyblyg posibl o gofnodion cleifion.

2.21 Erbyn mis Mawrth 2007, roedd hawliadau ledled Cymru a Lloegr o tua £8 miliwn yn erbyn Air Products, gyda gwrth-hawliad posibl gan y contractwr o £11.5 miliwn a oedd yn cynrychioli'r farn bod:


- cynnydd mewn prisiau wedi'i ohirio am chwe mis;
- bod ganddo'r hawl i gynnydd dros dro mewn taliadau trydan;
- nad oedd wedi cael ei dalu digon am y defnydd o wasanaethau ocsigen yn y cartref ysgafn;

Ffigur 4 - Costau a ragwelir dros gyfnod y contract newydd (pum mlynedd)

Cyfnod	Chwef 2006 i Ionawr 2007	Chwef 2007 i Ionawr 2008	Chwef 2008 i Ionawr 2009	Chwef 2009 i Ionawr 2010	Chwef 2010 i Ionawr 2011	Cyfanswm dros fywyd pum mlynedd y contract
Cost £ miliwn	6.2	7.3	7.8	8.2	8.6	38.1

Ffynhonnell: *Uned Rheoli Contractau Canolog Masnachol, yr Adran Iechyd, Gorffennaf 2007*

- bod ganddo'r hawl i godi tâl am offer a gollwyd ac offer na chawsant eu hadfeddiannu ar ôl terfynu'r trefniadau blaenorol;
 - bod ganddo'r hawl i godi tâl am wasanaethau a ddarparwyd i gleifion ar wyliau o fewn ei ranbarthau, ond sy'n byw fel arfer mewn rhanbarthau eraill yn y DU a gyflenwir gan ddarparwyr eraill.
- 2.22** Gwaethygodd y sefyllfa hon a gwrthododd rhai BILlau dalu rhai o'r anfonebau gan Air Products, os nad pob un ohonynt. O ganlyniad, treuliodd staff, yn genedlaethol ac yn lleol o fewn BILlau, gryn dipyn o amser yn datrys yr anghydfod hwn.
- 2.23** Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad â'r Adran Iechyd y byddai Uned Rheoli Contractau Canolog Masnachol (CCCMU) yr Adran yn cynnwys Cymru yn ei thrafodaethau ag Air Products. Penododd Llywodraeth y Cynulliad gynghorydd cyfreithiol hefyd i gysylltu â CCCMU yr Adran Iechyd ac i roi sylwebaeth broffesiynol ac arweiniad yn ystod y trafodaethau.
- 2.24** Erbyn mis Gorffennaf 2007, roedd yr Adran Iechyd wedi cytuno ar setliad gydag Air Products a chytunodd Gweinidogion Cymru fod telerau'r setliad hwnnw yn dderbyniol. Yn y pen draw, llofnodwyd y cytundeb ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Gweinidogion Cymru ac Air Products ar 31 Hydref 2007. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn dal i fod yn atebol am unrhyw daliadau sy'n ddyledus ar gyfer gwasanaethau cyfreithlon - ym mis Tachwedd 2007, amcangyfrifodd Air Products fod tua £100,000 yn ddyledus o hyd. Caiff Byrddau Iechyd Lleol eu credydu ar gyfer unrhyw ordaliadau a wnaed hyd yn hyn hefyd.
- 2.25** Mae CCCMU yr Adran Iechyd yn amcangyfrif y bydd y GIG yng Nghymru yn cael budd net o £960,000 o'r trafodaethau hyn dros gyfnod llawn y contract, sef pum mlynedd. Ymhlith y prif elfennau sy'n cyfrannu at y ffigur hwn mae:
- ad-daliad o gynnydd mewn pris wedi'i ôl-ddyddio;
 - cyfyngiadau ac oedi o ran cynnydd mewn prisiau yn y dyfodol;
 - bilio ar gyfer y swm anghywir a biliau gwyliau heb eu talu;
 - symud i Dâl Brys tri diwrnod sefydlog gydag arbedion o daliadau cyfredol;
 - cynnydd mewn taliadau i BILlau ar gyfer cyflenwadau ocsigen ysgafn.
- 2.26** Fel rhan o'i chyfrifiadau ar gyfer ffigur y setliad yng Nghymru, mae CCCMU yr Adran Iechyd wedi rhagweld costau ar gyfer pob un o flynyddoedd y contract (gweler **Ffigur 4**) yn seiliedig ar gytundeb i gyfyngu'r cynnydd mewn prisiau i 5.5 y cant, yn weithredol o fis Hydref 2007.



Atodiad 1 - Cronoleg o'r digwyddiadau a oedd yn ymwneud â'r penderfyniad i foderneiddio gwasanaethau ocsigen yn y cartref

Gorffennaf 1999	Coleg Brenhinol y Ffisigwyr yn cynhyrchu canllawiau ar Therapi Ocsigen yn y Cartref, y mae gan nifer ohonynt oblygiadau i gynnwys y Gwasanaeth Ocsigen yn y Cartref a'r ffordd y caiff ei ddarparu.
Tachwedd 1999	Yr Adran Iechyd yn cael cytundeb Arglwydd Hunt (yr Is-ysgrifennydd Seneddol dros Iechyd (Arglwyddi) ar y pryd) i gynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Ocsigen yn y Cartref, yn cynnwys ymgynghoriad.
Gorffennaf 2002	Cyflwyniad Saesneg, ar y canlyniadau a'r argymhellion a oedd yn deillio o'r adolygiad a'r ymgynghoriad, yn cael ei gyflwyno i Arglwydd Hunt. Y cyflwyniad yn nodi bod gwasanaethau presennol yn gymhleth a bod angen eu diweddarau. Arglwydd Hunt yn nodi ei fod, mewn egwyddor, yn cefnogi'r opsiwn o gael Gwasanaeth Ocsigen yn y Cartref integredig, wedi'i archebu'n bennaf gan ysbysai, ond ni wneir unrhyw benderfyniadau cadarn.
Mehefin 2003	Disgwylir i'r contract presennol ar gyfer darparu'r gwasanaeth ddod i ben ar 30 Mehefin 2003. Hysbysir Llywodraeth y Cynulliad ar ddechrau Mehefin bod Arglwydd Hunt wedi cymeradwyo'r broses o foderneiddio'r gwasanaeth yn Lloegr. Gwneir cais am gymeradwyaeth Gweinidog Iechyd Cymru i foderneiddio'r Gwasanaeth Ocsigen yn y Cartref ar hyd yr un llinellau ag yn Lloegr, a rhoddir y gymeradwyaeth honno. Llywodraeth y Cynulliad a'r Adran Iechyd yn penderfynu ehangu'r gwasanaeth presennol am 18 mis arall, hyd at fis Rhagfyr 2004.
Hydref 2003	Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu'r Grŵp Cyfeirio Therapi Ocsigen i gynorthwyo gyda'r broses o gynnal ymgynghoriad ar fanylion y broses foderneiddio a gymeradwywyd. Y Grŵp Cyfeirio Therapi Ocsigen yn cynnwys cynrychiolwyr clinigwyr, BILlau, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, Cyflenwadau Iechyd Cymru, Cymdeithas Thorasig Cymru, Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac eraill.
Ebrill 2004	Y Grŵp Cyfeirio Therapi Ocsigen yn ystyried ymatebion i'r ddogfen ymgynghori. Un ar hugain o'r pedwar ar hugain o ymatebion a gafwyd o blaid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am asesiadau ocsigen i feddygon ymgynghorol mewn ysbysai a'u timau. Mynegir pryderon gan ymatebwyr nad ydynt o blaid yr opsiwn hwnnw.
Mai 2004	Llywodraeth y Cynulliad a'r Adran Iechyd yn gwahodd tendrau o dan OJEU i ddarparu gwasanaeth integredig newydd i ddarparu ocsigen yn y cartref. Manyldeb gwasanaeth ar gyfer y contract newydd ar gael ar wefan yr Adran Iechyd.
Mawrth 2005	Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru sy'n hysbysu partïon perthnasol yng Nghymru o'r trefniadau newydd ar gyfer y Gwasanaeth Therapi Ocsigen yn y Cartref, gan nodi'r newidiadau sylweddol y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno o fis Hydref 2005. Bydd y newidiadau hyn yn cynnwys un gwasanaeth integredig ar gyfer Cymru gyfan a ddarperir gan un contractwr. Bydd timau arbenigol yn gallu awdurdodi therapi ocsigen gan ddefnyddio eu harbenigedd i asesu anghenion cymhleth hirdymor. Cyhoeddir rhagor o ganllawiau yn dilyn cyhoeddi'r contractwr llwyddiannus ar gyfer Cymru. Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu hysbysu y dylent ddechrau cynllunio ar gyfer y newid yn syth.

Awst 2005	<p>Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu llofnodi contractau ar gyfer y gwasanaeth newydd yn ystod gwanwyn 2005. Fodd bynnag, her gyfreithiol gan gynigydd aflwyddiannus yn arwain at oedi o ran llofnodi'r contract gydag Air Products tan 3 Awst. Y broses o gyflwyno'r contract newydd yng Nghymru a Lloegr yn cael ei gohirio am bedwar mis tan 1 Chwefror 2006.</p> <p>Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru arall yn hysbysu BILlau o'r camau cyfreithiol a'r oedi cyn cychwyn y contract ac yn ailddatgan bod angen i BILlau gymryd camau i reoli'r broses o gyflwyno'r contract.</p>
1 Chwefror 2006	Y contract newydd yn dechrau a'r darparwyr gwasanaeth yn wynebu problemau mawr yn syth o ran eu hymateb i'r galw am y gwasanaeth. Yng Nghymru, gofynnir i fferyllwyr cymunedol ailgychwyn y gwasanaeth a ddarparwyd ganddynt am gyfnod trosglwyddo o chwe mis, hyd at 31 Gorffennaf 2006, gydag Air Products yn cynyddu ei ddarpariaeth gwasanaeth cyn gynted â phosibl a gwasanaethau fferyllwyr cymunedol yn cael eu dirwyn i ben yn raddol yn ystod y cyfnod hwnnw.
31 Gorffennaf 2006	Y cyfnod trosglwyddo yn cael ei ymestyn am fis ychwanegol i ddarparu ar gyfer y cynnydd disgwylidig yn y galw am wasanaethau ocsigen yng Nghymru gan ymwelwyr sydd ar wyliau dros yr haf.
Haf 2006	Anghydfodau ynghylch taliadau am wasanaethau Air Products yn arwain at drafodaethau parhaus i'w datrys.
1 Medi 2006	Y cyfnod trosglwyddo yn dod i ben yn ffurfiol ac Air Products yw unig ddarparwr y Gwasanaeth Therapi Ocsigen yn y Cartref integredig yng Nghymru.
Chwefror 2007	Flwyddyn ar ôl dechrau'r contract newydd, nifer fach o BILlau yn nodi rhywfaint o gynnydd o ran datblygiad gwasanaethau asesu arbenigol lleol.
Mawrth 2007	Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu ag Uned Rheoli Contractau Canolog yr Adran Iechyd, sy'n arwain trafodaethau ag Air Products i geisio datrys y materion y mae anghydfod yn eu cylch ledled Cymru a Lloegr mewn perthynas â'r contract newydd.
Gorffennaf 2007	Y telerau cyffredinol ar gyfer setliad yn cael eu cymeradwyo gan Weinidogion yng Nghymru a Lloegr; y manylion o ran geiriad y setliad yn cael eu trafod.
Medi 2007	Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddu £1.65 miliwn i gefnogi'r broses o gomisiynu asesiadau clinigol arbenigol i gleifion y gallai fod angen iddynt gael gwasanaethau ocsigen.
Hydref 2007	Ar 31 Hydref 2007, llofnodir y setliad ar ran yr Ysgrifenydd Gwladol dros Iechyd, Gweinidogion Cymru ac Air Products.

Atodiad 2 - Tariff taliadau newydd gwell i fferyllwyr cymunedol

Elfen o'r Gwasanaeth	Hen gyfradd £	Cyfradd newydd £	Amrywiad
Ymweld â chlaf yn ystod oriau masnachu arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener at ddibenion: <ul style="list-style-type: none"> ■ gosod offer a rhoi cyfarwyddiadau i glaf sy'n cael therapi ocsigen am y tro cyntaf ■ dosbarthu setiau, silindrau neu fasnachau ocsigen ■ casglu offer ar ddiwedd y driniaeth ■ atgyweirio offer neu osod offer newydd yn lle offer diffygiol 	30	34	+13%
Ymweld â chlaf ar ddydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc pan fo'r fferyllfa eisoes ar agor ar gyfer masnachu at ddibenion: <ul style="list-style-type: none"> ■ gosod offer a rhoi cyfarwyddiadau i glaf sy'n cael therapi ocsigen am y tro cyntaf ■ dosbarthu setiau, silindrau neu fasnachau ocsigen ■ atgyweirio offer neu osod offer newydd yn lle offer diffygiol 	30	54	+80%
Ceisiadau i ddarparu ocsigen ar frys, ac atgyweirio offer a gosod offer newydd yn lle offer diffygiol o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng amser cau arferol y fferyllfa a'i hamser agor arferol y bore canlynol.	35	85	+143%
Ceisiadau i ddarparu ocsigen ar frys, ac atgyweirio offer a gosod offer newydd yn lle offer diffygiol ar ddydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc pan nad yw'r fferyllfa ar agor.	35	113	+223%
Ceisiadau i ddarparu ocsigen ar frys, ac atgyweirio offer a gosod offer newydd yn lle offer diffygiol ar Sul y Pasg.	35	165	+371%
Y claf neu'r gofawr yn casglu ocsigen o'r fferyllfa yn ystod oriau masnachu arferol.	10	10	-
Milltiredd gormodol ar gyfer siwrneau dros 10 milltir i gyd.	-	40c y filltir am siwrneau sy'n llai na 10 milltir i gyd	-
Rhent misol am bob set ocsigen a ddefnyddir	-	2.60	-

Ffynhonnell: Fferylliaeth Gymunedol Cymru